Surpass

Canllaw Pynciau – 2026/2027

Mae'r llyfryn hwn yn amlinellu'r gofynion pwnc-benodol ar gyfer pob pwnc sy'n defnyddio Surpass yn 2027, yn ogystal â'r mathau o ffeiliau rydym yn eu hargymell a'r maint ffeiliau mwyaf wrth uwchlwytho gwaith.

Mae'r llyfryn yn cynnwys unedau/cydrannau wedi'u hasesu'n allanol yn ôl lefel y cymhwyster.

Mae hefyd yn cynnwys gair byr o gyngor yn ymwneud â'r broses uwchlwytho. Am gyngor cam wrth gam manylach, darllenwch Proses E-Gyflwyno – Canllaw i Ganolfannau 2026-2027.

I gael mynediad i'r tab goruchwylio ac i adalw codau allwedd ymgeiswyr, mewngofnodwch i https://wjec.Surpass.com/Login.

I uwchlwytho gwaith ymgeiswyr, ewch i https://wjec.Surpass.com/secureassess/htmldelivery a defnyddiwch y cod allwedd perthnasol (sylwer nad oes angen enw defnyddiwr a chyfrinair i uwchlwytho gwaith).

Gellir rhannu manylion mewngofnodi â chydweithwyr eraill yn y ganolfan, yn ôl disgresiwn deiliad y cyfrif. **Ni ellir creu cyfrifon eilaidd.**

© WJEC CBAC Ltd

Cynnwys

Paratoi ar gyfer e-gyflwyno 3

Cyn e-gyflwyno 3

Uwchlwytho Gwaith i Surpass 3

Gwybodaeth bellach a Manylion cyswllt 4

Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant -Ionawr 2027 5

Pynciau Lefel T 6

Lefel T Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Eduqas) - Tachwedd 2026 6

© WJEC CBAC Ltd

Paratoi ar gyfer e-gyflwyno

Rhaid cymryd y camau canlynol i sicrhau bod y broses e-Gyflwyno'n rhedeg yn ddidrafferth.

Cyn e-gyflwyno

Ar gyfer pob cydran

Dyrennir cyfrif Surpass i'r Swyddog Arholiadau yn eich canolfan. I gael mynediad at Surpass, ewch i https://wjec.Surpass.com/login.

Os oes gan eich Swyddog Arholiadau gyfrif Surpass, yna dylech ddefnyddio'r un Enw Defnyddiwr a Chyfrinair. Os yw'r manylion hyn wedi cael eu hanghofio, dewiswch 'Ddim yn gallu cael mynediad at eich cyfrif' (*'Can't access your account*') ar dudalen gartref Surpass.

Os oes gan eich canolfan Swyddog Arholiadau newydd, neu os ydych yn cofrestru pwnc e-Gyflwyno am y tro cyntaf, bydd cyfrif newydd yn cael ei greu.

- Bydd neges e-bost yn cael ei hanfon at Swyddog Arholiadau'r ganolfan ychydig wythnosau cyn y dyddiad uwchlwytho.
- Er mwyn sicrhau bod eich canolfan yn derbyn yr e-bost hwn, ychwanegwch 'noreply@Surpass.com' at eich cysylltiadau e-bost. Yn ogystal, gwiriwch eich ffolder sothach.
- Bydd enw defnyddiwr eisoes wedi'i ddyrannu i'r ganolfan. Bydd angen creu cyfrinair a chwestiwn diogelwch.
- I orffen gosod y cyfrif dilynwch y cyfarwyddiadau yn yr e-bost.
- Ar ôl gorffen, gellir rhannu'r manylion mewngofnodi hyn â chydweithwyr eraill yn y ganolfan, yn ôl disgresiwn deiliad y cyfrif. **Ni ellir creu cyfrifon eilaidd.**

Unedau/cydrannau a asesir yn allanol

1. Bydd codau allwedd ar gyfer y garfan a gofrestrwyd ar gael yn y tab Goruchwylio ar Surpass cyn y terfyn amser cyflwyno.
2. I gael mynediad i'r tab goruchwylio ac i adalw codau allwedd ymgeiswyr, mewngofnodwch i https://wjec.Surpass.com/Login.

Uwchlwytho Gwaith i Surpass

I uwchlwytho gwaith ymgeiswyr, ewch i https://wjec.Surpass.com/secureassess/htmldelivery a defnyddiwch y cod allwedd perthnasol (sylwer nad oes angen enw defnyddiwr a chyfrinair i uwchlwytho gwaith).

© WJEC CBAC Ltd

Gwybodaeth bellach a Manylion cyswllt

Gwybodaeth fanylach am uwchlwytho gwaith ymgeiswyr	Y Broses E-gyflwyno – Canllaw Canolfannau 2026-2027
Dyddiadau allweddol a therfynau amser cyflwyno	Amserlenni Arholiadau Terfynau Amser Asesiadau Menwol
Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â mynediad i gyfrif neu godau allwedd cysylltwch â	02920 265 328 e-asesu@cbac.co.uk
Ar gyfer ymholiadau pwnc-benodol sy'n ymwneud â chynnwys asesiadau, dogfennau asesu gofynnol neu ofynion pwnc, cysylltwch â'ch arbenigwyr pwnc	https://www.wjec.co.uk/qualifications https://www.eduqas.co.uk/qualifications

© WJEC CBAC Ltd

Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant -Ionawr 2027

Mae'r gofynion ar gyfer y pwnc fel a ganlyn.

RHAID i ddilysiad a datganiad y pwnc fod yn bresennol ac yn gyflawn. Bydd gwaith a gyflwynir heb y ddogfennaeth gywir yn cael ei gofnodi fel sero.

Cod(au) Pwnc	**4963UY0-1** **4963NY0-1**
Pwnc/Pynciau	Lefel 3 – GChDDP: Uned 331 Ymchwilio i faterion cyfredol yn y maes gofal, chwarae, dysgu a datblygiad plant yng Nghymru
Manylion	Tasg 5,000 gair yn rhan o asesiad allanol sy'n seiliedig ar feysydd testun wedi'u rhyddhau ymlaen llaw.
I'w uwchlwytho	Rhaid cyflwyno'r canlynol: • Darn ysgrifennu estynedig • Taflen amser wedi'i llofnodi
Cyflwyno gwaith ar gyfer	Carfan
Mathau o ffeiliau a dderbynnir	doc, pdf, ppt
Maint mwyaf y ffeil i'w huwchlwytho (MB)	20 – i bob ymgeisydd

Mae codau allwedd ar gael o Surpass https://wjec.Surpass.com/Login. Gofynnwch i'ch swyddog arholiadau am fanylion mewngofnodi.

I uwchlwytho gwaith ymgeisydd ewch i https://wjec.Surpass.com/secureassess/htmldelivery

Gallwch wneud cais am god allwedd newydd ar gyfer ymgeisydd/ymgeiswyr neu god gweinyddu grŵp drwy ddefnyddio'r ffurflen isod: Uwchlwytho ar Surpass – ffurflen cais am god(au) allwedd newydd

Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â mynediad i gyfrif neu godau allwedd cysylltwch â	**02920 265 328** **e-asesu@cbac.co.uk**
Ar gyfer ymholiadau pwnc-benodol sy'n ymwneud â chynnwys asesiadau, dogfennau asesu gofynnol neu ofynion pwnc, cysylltwch â'ch arbenigwyr pwnc	https://www.cbac.co.uk/cymwysterau https://www.eduqas.co.uk/qualifications

© WJEC CBAC Ltd

Pynciau Lefel T

Lefel T Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Eduqas) - Tachwedd 2026

Mae'r gofynion ar gyfer y pwnc fel a ganlyn.

RHAID i ddilysiad a ffurflenni datganiad fod yn bresennol ac yn gyflawn.
Dylid hefyd uwchlwytho rhestr wirio tystiolaeth.

Cod(au) Pwnc	D913N20-1
Pwnc/Pynciau	Lefel T Peirianneg Gwasanaethau Adeiladu (EDUQAS) Project wedi'i osod gan Gyflogwr
Manylion	Mae'r asesiad Project wedi'i osod gan Gyflogwr yn broject sy'n cynnwys nifer o dasgau, yn seiliedig ar broblem yn seiliedig ar waith o'r bywyd go iawn. Mae'r asesiad wedi'i gynllunio i ganiatáu i ymgeiswyr ddangos sut gallan nhw fynd i'r afael â phroblemau gan ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau Craidd. Darparwyr sy'n gyfrifol am gyflwyno'r asesiad yn unol â'r canllawiau a ddarperir, casglu tystiolaeth ymgeiswyr. Dylai canolfannau gyfeirio at y canllaw project wedi'i osod gan gyflogwr am fwy o wybodaeth. Dylai canolfannau hefyd gyfeirio at yr amserlen dyddiadau allweddol i weld cyfnodau asesu a chyflwyno. Mae labelu clir yn cefnogi'r broses asesu, gan fod hynny'n dangos pa dystiolaeth sydd ym mhob ffeil a sut mae'n berthnasol i'r project. Rhaid bod enw ffeil ar y dystiolaeth sy'n nodi'n glir cynnwys y ddogfen (rhif cofrestru / tasg / math o dystiolaeth). Rhaid i'r labelu fod yn gyson drwy gydol y garfan, gyda thystiolaeth pob ymgeisydd yn defnyddio'r un confensiwn enwi ffeiliau. Rhaid i bob darn o dystiolaeth (gan gynnwys Cofnodion Arsylwi) fod mewn ffeil ar wahân. Rhaid uwchlwytho rhestr wirio tystiolaeth gyflawn gyda'r dystiolaeth.
I'w uwchlwytho	Rhaid cyflwyno'r canlynol: 1.1 Ymchwil • Canfyddiadau ymchwil wedi'u creu brosesydd geiriau. • Cofnod o'r ffynonellau a ddefnyddiwyd. 2.1 Adroddiad • Adroddiad wedi'i greu ar brosesydd geiriau.

© WJEC CBAC Ltd

	• Cofnod o ffynonellau. 3.1 Cynllun y project • Cynllun rhaglen waith wedi'i greu ar brosesydd geiriau. • Datganiad cefnogi ar gyfer y cynllun rhaglen waith wedi'i greu ar brosesydd geiriau. 4.1 Cyflwyniad • Deunyddiau cyflwyno. • Nodiadau siaradwr. 2.1 Datrys Problemau Cydweithredol • Recordiad fideo o'r trafodaethau. • Nodiadau trafod ysgrifenedig. • Neges e-bost wedi'i drafftio. • Cofnod arsylwi. 2.2 Gwerthuso • Gwerthusiad myfyriol wedi'i greu ar brosesydd geiriau. Datganiad o ddilysrwydd cyflawn. Rhestr wirio tystiolaeth gyflawn.
Cyflwyno gwaith ar gyfer	Carfan
Mathau o ffeiliau a dderbynnir	MP4, doc, pdf
Maint mwyaf y ffeil i'w huwchlwytho (MB)	800 – i bob ymgeisydd

Mae codau allwedd ar gael o Surpass https://wjec.Surpass.com/Login. Gofynnwch i'ch swyddog arholiadau am fanylion mewngofnodi.

I uwchlwytho gwaith ymgeisydd ewch i https://wjec.Surpass.com/secureassess/htmldelivery

Gallwch wneud cais am god allwedd newydd ar gyfer ymgeisydd/ymgeiswyr neu god gweinyddu grŵp drwy ddefnyddio'r ffurflen isod: Uwchlwytho ar Surpass – ffurflen cais am god(au) allwedd newydd

Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â mynediad i gyfrif neu godau allwedd cysylltwch â	**02920 265 328** **e-asesu@cbac.co.uk**
Ar gyfer ymholiadau pwnc-benodol sy'n ymwneud â chynnwys asesiadau, dogfennau asesu gofynnol neu ofynion pwnc, cysylltwch â'ch arbenigwyr pwnc	https://www.cbac.co.uk/cymwysterau https://www.eduqas.co.uk/qualifications

© WJEC CBAC Ltd